



# Ysgol Gymraeg Casnewydd

Hartridge Farm Road, Newport NP18 2LN

Polisi Gofal Personol

Intimate Care Policy

2024-2025



## Polisi Gofal Personol – newid cewyn / trochi

Yn Ysgol Gymraeg Casnewydd rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd yr holl staff sy'n gyfrifol am ofal personol plant a phobl ifanc yn cyflawni eu dyletswyddau mewn modd proffesiynol bob amser. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod plant yn cael eu trin â sensitifrwydd a pharch.

### Beth yw 'gofal personol'

Diffinnir gofal personol fel unrhyw ofal sy'n cynnwys golchi, cyffwrdd neu gyflawni gweithred bersonol (*invasive procedure*) y mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn gallu ei chyflawni drostynt eu hunain, ond y mae rhai yn rhy ifanc neu'n methu ei gwneud yn annibynnol.

Mae tasgau gofal personol yn gysylltiedig â swyddogaethau corfforol, cynhyrchion corff a hylendid personol sy'n gofyn am gyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol ag ardal bersonol o'r corff, er enghraifft, cefnogaeth gyda gwisgo a dadwisgo (dillad isaf), newid padiau anymataliaeth (*incontinent pads*) a chewynnau, helpu rhywun i ddefnyddio'r tŷ bach neu olchi rhannau personol o'r corff, glanhau disgybl sydd wedi baeddu ei hun neu wedi chwydu. Efallai na fydd rhai disgyblion yn gallu diwallu eu hanghenion gofal eu hunain am amryw resymau a bydd angen cefnogaeth rheolaidd arnynt.

Mewn rhai achosion o weithdrefnau penodol, dim ond person sydd wedi'i hyfforddi a'i asesu'n gymwys ddylai gyflawni'r weithdrefn. Bydd y lefel yma o ofal yn cael ei bennu gan Ymarferydd Gwasanaeth Iechyd a fydd yn cwblhau Cynllun Gofal Iechyd.

### Pethau Ymarferol

Disgwyli'r yn gyffredinol y bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu defnyddio'r tŷ bach ac allan o gewynnau cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd plant yn ymuno ag Ysgol Gymraeg Casnewydd wedi cyrraedd lefelau gwahanol o annibyniaeth a datblygiad o ran defnyddio'r tŷ bach a hunanofal. Felly, mae'n anochel y bydd rhai plant yn cael damweiniau o bryd i'w gilydd ac y bydd angen rhoi sylw iddynt. Yn ogystal â hyn, mae nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau a chyflyrau meddygol yn cael eu cynnwys mewn lleoliadau prif ffrwd. Mae angen cymorth oedolion ar nifer sylweddol o'r disgyblion hyn ar gyfer eu hanghenion gofal personol. Er mwyn helpu'r plant i ddod yn ymwybodol o'u hanghenion corfforol ac ymateb iddynt mewn pryd, caniateir i'r plant fynd i'r tŷ bach unrhyw bryd er eu bod yn cael eu hannog, wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, i ddefnyddio'r tŷ bach yn ystod amseroedd egwyl.

### Rôl staff

Os yw plentyn yn baeddu ei hun yn ystod amser ysgol, bydd un aelod o staff yn helpu'r plentyn i ddilyn y weithdrefn yma:

- Dweud wrth aelod arall o staff mewn modd sensitif a disylw y bydd y plentyn yn cael ei newid a pham.
- Mynd â'r plentyn i'r ardal newid ddynodedig.
- Bod yn ymwybodol o faterion lechyd a Diogelwch (cyfeiriwch at y canllawiau lechyd a Diogelwch). Gwisgwch PPE priodol bob amser (gan ddilyn y canllawiau PPE), o leiaf menig plastig, ffedog a mwgwd IIR. Os oes risg y bydd y plentyn yn pesychu, poeri, chwydu neu bod tasgu yn debygol, dylid amddiffyn y llygaid drwy wisgol fisur wyneb.
- Sicrhewch fod y plentyn yn sefyll ar bapur glas ar y llawr ac os yn bosibl anogwch y plentyn i dynnu ei ddillad budr ei hun.
- Glanhewch eu croen (mae hyn fel arfer yn cynnwys pen ôl, organau cenhedlu, coesau, traed).
- Gwisgwch y plentyn mewn dillad glân.
- Rhowch y dillad budr mewn dau fag plastig a'u rhoi i'r rhieni fynd adref gyda nhw.
- Rhowch unrhyw 'wipes' / cewyn / rhodyn glas mewn dau fag plastig a'i waredu yn y bin a ddarperir.
- Sicrhewch fod yr ardal newid wedi ei glanhau'n drywlwyr.
- Rhowch eich PPE mewn dau fag plastig a'i roi yn y bin a ddarperir.



- Golchwch eich dwylo'n drylwyr.
- Cofnodwch y digwyddiad ar y log gan sicrhau fod yr aelod arall o staff yn arwyddo hefyd.
- Rhowch wybod i'r rhieni / gwarcheidwaid fod eu plentyn wedi ei newid mewn modd sensitif a disylw.

Mae'r aelod o staff bob amser yn talu sylw i pa mor hapus neu ofidus mae'r plentyn wrth gael ei newid gan ei gysuro. Os yw'r plentyn yn sâl bydd yr aelod staff yn ffonio'r rhiant / gofalwr. Os bydd plentyn yn gyndyn ac yn gwrthod cael ei newid yna cysylltir â'r rhiant / gofalwr.

Wrth gynnal gweithdrefnau gofal personol dylai'r drws i'r ystafell fod ar agor i ddiogelu'r plentyn a'r oedolyn.

Bydd y plentyn yn cael ei annog i ofalu amdano'i hun cyn belled ag y bo modd a'i helpu i gyflawni'r lefel uchaf o annibyniaeth bosibl o ystyried oedran a gallu. Bydd annibyniaeth i gyflawni agweddau ar ofal personol fel rhan o'i ddatblygiad personol a chymdeithasol yn cael ei hyrwyddo a gellir gosod targedau wrth ddatblygu'r sgiliau bywyd yma.

Dylid ystyried ethnigrwydd, diwylliant, credoau a chrefydd, a dylid nodi, darparu a dogfennu unrhyw ofynion arbennig sy'n ymwneud â gofal personol yn unol â hynny.

Ein bwriad yw na fydd y plentyn byth yn cael ei adael mewn dillad budr, ond cyn gynted ag y bydd aelod o staff yn ymwybodol o'r sefyllfa, bydd ef / hi yn glanhau'r plentyn.

Ni fydd y plentyn yn cael ei d/ddisgyblu os yw wedi cael damwain, dim ond yn derbyn anogaeth a chanmoliaeth gadarnhaol am ei ymdrechion i feistrol'i'r sgil angenrheidiol hon. Ein bwriad bob amser yw osgoi tynnu sylw at ddigwyddiadau o'r fath ac i annog y plentyn yn ei ymdrechion i ddatblygu'r sgil o allu defnydio'r tŷ bach yn gywir.

Nid yw'n dderbyniol awgrymu bod plentyn yn gwisgo cynhyrchion fel cewynnau fel ffordd o reoli damweiniau. Mae cewynnau yn lleihau'r teimlad o wlychu a baeddu a gallant roi'r argraff i'r plentyn nad oes ots ble maen nhw'n pasio wrin neu'n agor eu coluddion. Dylai plentyn ond gwisgo cewynnau pan fod gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi argymhell y dylai hyn ddigwydd.

Os yw dysgwr yn baeddu'n aml ac mae hyn yn peri pryder naill ai am les y dysgwr neu o ran rheolaeth, dylid ymgynghori â'r rhieni a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol.

Nid yw'n dderbyniol gwrthod derbyn neu eithrio plentyn sy'n cael damweiniau'n rheolaidd neu sy'n parhau i fod angen cefnogaeth. Efallai bydd rhai plant yn colli cryn dipyn o ysgol oherwydd eu bod yn cael damweiniau rheolaidd neu yn dioddef o symptomau cysylltiedig. Dylid mynd i'r afael â'r absenoldebau gyda'r teulu a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

### **Canllawiau ar gyfer anghenion gofal personol sydd yn fwy na damweiniau.**

Bydd anghenion pob plentyn sydd angen gofal personol yn cael ei gynllunio'n ofalus.

Pan fydd angen offer a chyfleusterau arbenigol uwchlaw'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr ysgol, gwneir pob ymdrech i ddarparu cyfleusterau priodol mewn modd amserol, yn dilyn asesiad gan Ffisiotherapydd a / neu Therapydd Galwedigaethol.

Byddwn yn trafod yn ofalus ag unrhyw ddisgybl sydd angen gofal personol i drafod anghenion a hoffterau.

Bydd staff yn cael eu cefnogi i addasu eu harfer mewn perthynas ag anghenion plant unigol gan ystyried newidiadau datblygiadol megis dechrau'r glasoed a'r mislif.

Bydd disgyblion yn cael eu cefnogi i gyflawni'r lefel uchaf o annibyniaeth bosibl, yn ôl eu cyflwr a'u galluedd unigol.

Bydd cynlluniau unigol yn cael eu llunio ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd angen gofal personol rheolaidd (Atodiad B). Dylai'r rhieni lofnodi'r cynllun os oes angen newid disgybl yn rheolaidd pan yn dysgu defnydio'r tŷ bach.

Rhoddir ystyriaeth ofalus i sefyllfaoedd unigol i benderfynu faint o oedolion ddylai fod yn bresennol yn ystod gweithdrefnau gofal personol. Lle bo hynny'n bosibl, bydd un oedolyn yn gofalu am un disgybl oni bai bod rheswm cadarn dros gael mwy o oedolion yn bresennol. Mewn achos o'r fath, bydd y rhesymau'n cael eu dogfennu.

Bydd trefniadau gofal personol yn cael eu trafod gyda rhieni / gofalwyr a'u cofnodi ar y cynllun.

Bydd anghenion a dymuniadau plant a rhieni yn cael eu hystyried lle bynnag y bo modd, o fewn cyfyngiadau staffio a deddfwriaeth cyfle cyfartal.

### **Diogelu**



Dilynir ein gweithdrefnau diogelu bob amser. Mae pob aelod o staff sy'n cyflawni gweithdrefnau gofal personol â DBS cyfredol. Dim ond dan oruchwyliaeth aelod o staff hyfforddedig y dylai myfyrwyr gyflawni'r gwaith. Nid yw'n briodol i wirfoddolwyr gyflawni gweithdrefnau gofal personol.

Os yw plentyn yn gwneud honiad am aelod o staff, ymchwilir i hyn yn unol â gweithdrefnau'r ysgol.

### **Anabledau**

Mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd sy'n ei gwneud yn ofynnol na ddylid gwahaniaethu yn erbyn unrhyw blentyn â nam sy'n effeithio ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.



## **Intimate Care and Toileting Policy**

At Ysgol Gymraeg Casnewydd we are committed to safeguarding and promoting the welfare of children and young people.

We are committed to ensuring that all staff responsible for intimate care of children and young people will undertake their duties in a professional manner at all times. We are committed to ensuring that children are treated with sensitivity and respect.

### **What is 'Intimate care'**

*Intimate care is defined as any care which involves washing, touching or carrying out an invasive procedure that most children and young people carry out for themselves, but which some are too young to or are unable to do.*

*Intimate care tasks are associated with bodily functions, body products and personal hygiene that demands direct or indirect contact with intimate personal areas. Examples include support with dressing and undressing (underwear), changing incontinence pads and nappies, helping someone use the toilet or washing intimate parts of the body, cleaning a pupil who has soiled him/herself or vomited. Some pupils may be unable to meet their own care needs for a variety of reasons and will require regular support.*

*In the case of a specific procedure only a person suitably trained and assessed as competent should undertake the procedure. This level of care required will be determined by a Health Service Practitioner who will complete a Health Care Plan.*

### **Practicalities**

*It is generally expected that most children will be toilet trained and out of nappies before they begin at school. However, we recognise that children will join Ysgol Gymraeg Casnewydd having reached differing levels of independence and development in toileting and self-care. Therefore, it is inevitable that from time to time some children will have accidents and need to be attended to. In addition to this, an increasing number of children and young people with disabilities and medical conditions are being included in mainstream settings. A significant number of these pupils require adult assistance for their personal and intimate care needs. In order to help the children to become aware of their bodily needs and respond to them in time, those who wish to go to the toilet are always allowed to go. Although they are encouraged as they progress through the school to use the toilet during break times.*

### **Role of staff**

*If a child soils him/herself during school time, one member of staff will help the child following this procedure:*

- *Tell another member of staff in a discreet and sensitive manner that the child is going to be changed and why.*
- *Take the child to the designated changing area.*
- *Be aware of Health and Safety issues (refer to Health and Safety guidelines). Always wear appropriate PPE (following the PPE guidelines), at least disposable gloves, apron and IIR mask. If there is a risk that the child will cough, spit, vomit or splashing is likely to occur, eye protection (face visor) should be worn.*
- *Ensure the child is standing on blue roll and whenever possible encourage the child to remove his/her own soiled clothes.*
- *Clean their skin (this usually includes bottom, genitalia, legs, feet).*
- *Dress the child in clean clothes.*
- *Double bag soiled clothes in plastic bags and give to parents to take home.*
- *Double bag and any wipes/nappy/blue roll and dispose in the bin provided.*
- *Ensure the changing area is thoroughly cleaned after use.*
- *Double bag PPE and dispose in the bin provided.*
- *Wash hands thoroughly.*
- *Record the incident on the changing log and get it countersigned by the other member of staff.*
- *Inform the parents/guardians that their child has been changed in a discreet and sensitive way.*



*At all times the member of staff pays attention to the level of distress and comfort of the child. If the child is ill the member of staff will telephone the parent/carer. In the event a child is reluctant and finally refuses, the parent/carer will be contacted immediately.*

*When carrying out intimate care procedures the door to the room should be open to safeguard both the child and the adult.*

*The child or young person will be encouraged to care for him/herself as far as possible and helped to achieve the highest level of autonomy possible given age and ability. Independence to carry out aspects of intimate care as part of his/her personal and social development will be promoted and targets may be set in developing these life skills.*

*Consideration should be given to ethnicity, culture, beliefs and religion, and any special requirements relating to intimate care should be identified, provided for and documented accordingly.*

*Our intention is that the child will never be left in soiled clothing, but as soon as a member of staff is aware of the situation, he/she will clean the child.*

*It is intended that the child will not experience any negative disciplining, but only positive encouragement and praise for his/her endeavours to master this necessary skill. It is always our intention to avoid drawing attention to such events and positively to encourage the child in his/her efforts to gain these skills.*

*It is not acceptable for school to suggest that a child wears disposable continence containment products (nappies or disposable pants) as a means of managing incontinence. Disposable continence containment products reduce the sensation of wetting and soiling and may give the learner the impression that it does not matter where they pass urine or open their bowels. Disposable continence containment products should only be used to manage incontinence in school if recommended by a healthcare professional who is involved in treating the learner's bladder/bowel issue.*

*If a learner is incontinent frequently and this is causing concern either for the learner's wellbeing or in terms of management, parents and an appropriate healthcare professional should be consulted.*

*It is not acceptable to refuse admission or exclude a child who has not achieved continence or continues to need support with this area of care. Some children may be missing significant amounts of school due to their incontinence or related symptoms. These should be addressed with the family and a healthcare professional.*

### **Guidance for intimate care needs over and above accidents.**

*The management of all children with intimate care needs will be carefully planned.*

*Where specialist equipment and facilities above that currently available in the school are required, every effort will be made to provide appropriate facilities in a timely fashion, following assessment by a Physiotherapist and/or Occupational Therapist.*

*There is careful communication with any pupil who requires intimate care in line with their preferred means of communication to discuss needs and preferences.*

*Staff will be supported to adapt their practice in relation to the needs of individual children taking into account developmental changes such as the onset of puberty and menstruation.*

*Pupils will be supported to achieve the highest level of independence possible, according to their individual condition and abilities.*

*Individual plans will be drawn up for any pupil requiring regular intimate care (Appendix B). Parents should sign the Plan if a pupil needs to be changed on a regular basis when toilet training.*

*Careful consideration will be given to individual situations to determine how many adults should be present during intimate care procedures. Where possible, one pupil will be cared for by one adult unless there is a sound reason for having more adults present. In such a case, the reasons will be documented.*

*Intimate care arrangements will be discussed with parents/carers and recorded on the plan.*

*The needs and wishes of children and parents will be taken into account wherever possible, within the constraints of staffing and equal opportunities legislation.*

### **Child Protection**

*Child Protection and Multi-Agency Child Protection procedures will be adhered to at all times. All members of staff carrying out intimate care procedures have enhanced DBS. Students should only do so under the supervision of a trained member of staff. It is not appropriate for volunteers to carry out intimate care procedures.*



*If a child makes an allegation about a member of staff, this will be investigated in accordance with agreed procedures.*

**Disabilities**

*The Governing Body recognises its duties and responsibilities in relation to the Disability Discrimination Act which requires that any child with an impairment that affects his/her ability to carry out normal day-to-day activities must not be discriminated against.*





Cynllun Cytûn ar gyfer Newid Plentyn <i>Agreed Plan for Changing a Child When Toilet Training</i>		
Enw'r plentyn <i>Name of Child</i>	Dyddiad geni <i>D.O.B</i>	Blwyddyn ysgol <i>Year group</i>
Diagnosis meddygol neu gyflwr meddygol / <i>Medical diagnosis or medical condition:</i>		
<p>Cyfrifoldebau Rhieni:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Newid y plentyn mor hwyr â phosibl cyn dod i'r ysgol</li> <li>Darparu digon o ddillad glân a'r holl eitemau sydd eu hangen (ee 'nappy sacks', 'wipes')</li> <li>Deall a chytuno ar weithdrefnau'r ysgol a ddilynir wrth newid plentyn</li> <li>Hysbysu'r ysgol os oes gan y plentyn unrhyw farciau / brechau (<i>rash</i>)?</li> <li>Cytuno pa mor aml y dylid newid y plentyn fel mater o drefn os yw'r plentyn yn yr ysgol am y diwrnod llawn a phwy fydd yn newid</li> <li>Parhau i weithredu rhaglen hyfforddi defnyddio'r tŷ bach gartref. Parhau i annog y plentyn i newid yn annibynnol</li> <li>Parhau i geisio cyngor meddygol i fynd i'r afael â'r mater / cysylltu a chydweithio â'r ysgol</li> </ul> <p>Cyfrifoldebau'r Ysgol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Newid y plentyn pan fydd yn fudr neu'n wlyb gan ddilyn y gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.</li> <li>Dilyn rhaglen hyfforddi fel y cytunwyd gyda'r rhieni a / neu weithwyr proffesiynol eraill, a fydd yn cael ei nodi mewn cynllun neu asesiad risg.</li> <li>Adrodd i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a'r rhiant os yw'r plentyn yn mynd yn ofidus neu os gwelir marciau / brechau.</li> <li>Sicrhau lle bo hynny'n bosibl y bydd y plentyn yn cael ei newid / goruchwylio gan aelodau staff cytunedig.</li> <li>Trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i weithdrefnau toiled gyda'r rhieni / gofalwyr.</li> </ul>	<p>Parental Responsibilities:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>To change the child at the latest possible time before coming to school</li> <li>Provide a plentiful supply of clean clothes and all necessary items needed (eg nappy sacks, wipes)</li> <li>Understand and agree the school procedures followed during changing</li> <li>To inform the school should the child have any marks/rashes?</li> <li>Agree how often the child should be routinely changed if the child is in school for the full day and who will be doing the changing</li> <li>To continue to implement a toilet training programme at home. To continue to encourage independent changing.</li> <li>To continue to seek medical advice to address the issue/liaise with the school</li> </ul> <p>School's Responsibilities:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>To change the child when soiled or wet following the agreed procedures.</li> <li>To follow toilet training programme as agreed with parents and/or other professionals, which will be stated in a Plan or a risk assessment.</li> <li>To report to the Designated Safeguarding Lead and the parent if the child becomes distressed or if marks/rashes are seen.</li> <li>To ensure where possible that the child will be changed/supervised by agreed members of staff.</li> <li>To discuss any proposed changes to toileting procedures with the parents/carers.</li> </ul>	
Unrhyw gamau ychwanegol i'w cymryd / <i>Any additional actions to be taken:</i>		

Enw'r rhiant / Parent's name: \_\_\_\_\_

Llofnod Rhiant / Parent's signature: \_\_\_\_\_ Dyddiad / Date: \_\_\_\_\_

Llofnod Pennaeth Mewn Gofal / *Head of School signature*: \_\_\_\_\_

Dyddiad / Date: \_\_\_\_\_ Dyddiad Adolygu / *Review Date*: \_\_\_\_\_

**Awgrymiadau a phethau i'w cofio ...**

- Sicrhewch fod y plentyn yn yfed digon yn ystod y dydd - mae angen anogaeth ar y mwyafrif i wneud hyn! Yn ogystal ag atal dadhydradiad, sy'n niweidiol i ddysgu a lles, mae arferion yfed da yn hybu iechyd da ar y bledren, yn helpu i atal heintiau'r llwybr wrinol (UTI) a rhwymedd. Mae'r tabl isod yn amlinellu faint ddylai plant ei yfed yn ystod y dydd.
- Sicrhewch fod gan y plentyn fynediad at dŷ bach glân, wedi'i stocio'n dda, a'u bod yn cael mynd i'r tŷ bach ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.
- Ewch â'r plentyn i'r toiled yn rheolaidd i 'roi cynnig arni' - gallai hyn fod mor aml â phob 20 munud, yn ôl anghenion y plentyn.
- Chwiliwch am arwyddion fod y plentyn angen y tŷ bach.
- Cadwch ddigon o ddillad sbâr wrth law.
- Peidiwch â chanolbwyntio ar unrhyw ddamweiniau mae'r plentyn eu cael, newidiwch y plentyn heb ffws a chanmol unrhyw lwyddiannau.
- Byddwch yn gyson - sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o gynllun defnyddio tŷ bach y plentyn ac yn gallu parhau ag ef.
- Byddwch yn bositif - sicrhewch bod defnyddio'r tŷ bach yn brofiad cadarnhaol. Peidiwch â'i droi yn frwydr. Rhowch wybod i unrhyw oedolyn sy'n bwysig i'r plentyn am ei lwyddiannau. Gwneud iddyn nhw deimlo'n arbennig.

**Suggestions and things to remember...**

- *Ensure the child has a good fluid intake. The majority need encouragement with this! As well as preventing dehydration, which is detrimental to learning and wellbeing, good drinking habits promote good bladder health, help to prevent urinary tract infections (UTI) and constipation. The table below outlines suggested total intake for most children, during waking hours.*
- *Ensure the child has access to clean, well-stocked toilets and is able to access the toilets at any time during the school day.*
- *Take the child to the toilet regularly for a 'try' – this could be as often as every 20 minutes, according to the need of the child.*
- *Look for tell-tale signs that the child needs the toilet.*
- *Keep plenty of spare clothes handy.*
- *Do not focus on any accidents the child may have, change the child and praise any successes.*
- *Be consistent – ensure all staff are aware of the child's toileting plan and are able to continue with it.*
- *Be positive – ensure toileting is a positive experience. Don't turn it into a battle. Inform any adult that is important to the child about their success. Make them feel special.*